

# Cais am gyfarwyddiadau ynghylch lleoliad ar gyfer gweinyddu a phenderfynu

Enw a chyfeiriad y parti sy'n gwneud y cais  
enw

Cyfeiriad

IYn yr Uchel Lys Barn – Y Llys Gweinyddol	
Rhif yr Hawliad	
Hawlydd (Hawlywr) / Apelydd (Apelyddion)	
Diffynnydd (Diffynnyddion) / Atebydd (Atebywr)	
Parti (Partion) sydd â budd	

Rwyf/Rydym yn gwneud cais i'r llys am gyfarwyddyd bod y mater hwn yn cael ei weinyddu gan:

- Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn Yr Uchel Lys Barn yn Llundain
- Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn Birmingham
- Swyddfa'r Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd
- Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn Leeds
- Swyddfa'r Llys Gweinyddol ym Manceinion

Bydd unrhyw fater a weinyddir gan swyddfa'r Llys Gweinyddol y tu allan i Lundain yn cael ei wrando mewn llys ar y gylchdaith berthnasol: gweler PD54C, paragraffau 1.2 a 2.4

Rwyf/Rydym yn gwneud y cais hwn am y rheswm(rhesymau) canlynol: (cyfeiriwch at baragraff 2.5 o PD54C a nodir dros y dudalen)

(I'w llofnodi gennych chi, neu gan eich cyfreithiwr neu gyfaill cyfreitha)

Llofnod

Dyddiad

Enw

(os ydych yn llofnodi ar ran ffyrn neu gwmni, llys)

Safle neu swydd a

Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi i Swyddfa'r Llys Gweinyddol sy'n gweinyddu'r mater hwn ar hyn o bryd, o fewn 21 diwrnod i gyflwyno papurau'r achos arnoch. Rhaid i chi hefyd gyflwyno copiau o'ch cais cyflawn ar bob parti arall.

PD54C, 2.5 Y disgwyliad cyffredinol yw y bydd achosion yn cael eu gweinyddu a'u penderfynu yn y rhanbarth y mae gan yr hawliad y cysylltiad agosaf ag ef. Penderfynir ar hyn gan roi sylw i bwnc yr hawliad, y rhanbarth y mae'r hawlydd yn byw ynddo a'r rhanbarth lle mae'r diffynnydd neu unrhyw swyddfa neu adran berthnasol y diffynnydd wedi'u lleoli. Yn ogystal, gall y llys ystyried unrhyw un/pob amgylchiad perthnasol arall gan gynnwys y canlynol:

- (a) unrhyw reswm a fynegir gan unrhyw barti ar gyfer ffafrio lleoliad penodol
- (b) hwylustod a chost teithio i wrandawriad
- (c) argaeledd ac addasrwydd dulliau amgen o fynychu gwrandawriad (er enghraifft, drwy gyswllt fideo);
- (d) graddau a natur unrhyw fudd cyhoeddus yn yr achos a wrandewir mewn lleoliad penodol;
- (e) yr ystod amser sy'n briodol ar gyfer penderfynu ar yr achos;
- (f) a yw'n ddymunol gweinyddu neu benderfynu ar yr hawliad mewn rhanbarth arall yng ngoleuni nifer yr hawliadau a gychwynnir yn y llys a gychwynnodd yr hawliad, a hefyd yng ngoleuni capasiti, adnoddau a llwyth gwaith y llys hwnnw;
- (g) a yw'r hawliad yn codi materion sy'n ddigon tebyg i'r rhai mewn hawliad arall fel y byddai'n ddymunol penderfynu ar yr hawliad hwnnw gyda'r hawliad arall hwnnw, neu'n syth ar ei ôl;
- (h) a yw'r hawliad yn codi materion yn ymwneud â datganoli ac am y rheswm hwnnw a fyddai'n fwy priodol ei benderfynu yn Llundain neu yng Nghaerdydd; a'r
- (i) rhanbarth lle mae cynrychiolwyr cyfreithiol y partion wedi'u lleoli